Cofnodion **CYFARFOD y CYNGOR** a gynhaliwyd yn hybrid nos Fercher, 17 Ebrill 2024 am 6.00pm.

**PRESENNOL**

Y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine (Maer)

Y Cynghorwyr M. Blackwell, Mrs M. A. Blakeley-Walker, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs E. M. Chard, Mrs J. M. Evans, S. Feeney, A. R. James, K. R. Jones, Mrs D. L. King, B. Mellor, Mrs W. M. Mullen-James, Ms R. S. Roberts, Miss S. L. Roberts, Ms V. Roberts, A. J. Rutherford, A. Walker a Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

## 141. AGOR Y CYFARFOD AC YMDDIHEURIADAU

Arweiniodd Caplan y Maer, y Parchedig Helen Gheorghiu Gould, y rhai a oedd yn dymuno cymryd rhan mewn gweddi.

Cyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Ms S. Fleming.

## 142. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion a ganlyn cyfarfod y Cyngor a'i bwyllgorau i'w cymeradwyo fel cofnodion cywir:

Cyfarfod y Cyngor - 20 Mawrth 2024 - Cofnodion rhifau 129-140

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine ac eiliwyd gan y Cynghorydd A. R. James a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir.*

Y Pwyllgor Cynllunio - 20 Mawrth 2024 - Cofnodion rhifau 46-48

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine ac eiliwyd gan y Cynghorydd A. J. Rutherford a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir.*

## 143. ADRODDIAD Y MAER

Cyflwynodd y Maer fanylion y digwyddiadau y bu'n bresennol ynddynt yn ystod y mis diwethaf, a chyfeiriodd yn benodol at ei noson cwis elusennol. Diolchodd i bawb a oedd wedi mynychu'r digwyddiad ac wedi rhoi cyfraniadau. Cyfeiriodd y Cynghorydd McAlpine hefyd at y 'Great Tommy Sleep Out' yn Morrisons yn y Rhyl, i godi arian ar gyfer cyn-filwyr digartref.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad.*

## 144. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU (ATODLEN A) – MIS MAWRTH 2024

Cyfeiriodd y Cadeirydd at adroddiad Clerc y Dref (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) yn rhoi manylion y taliadau a wnaed a'r incwm a dderbyniwyd.

| Taleb rhif: | Enw'r cyflenwr | Swm | Disgrifiad y nwyddau / gwasanaethau |
|---|---|---|---|
| 1526 | Tesco | 3.00 | Yswiriant ffôn symudol HW |
| 1789 | BT | 271.12 | Llinell ffôn a band eang |
| 1526 | Tesco | 12.99 | Ffioedd ffôn symudol HW |
| 1797 | HSBC | 14.80 | Ffioedd bancio |
| 1658 | Cyngor ar Fudd-daliadau | 1,166.67 | Swyddog Apeliadau 23/24 – taliad 12 o 12 |
| 1798 | Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi | 3,084.58 | Didyniadau Talu wrth Ennill mis Chwefror 2024 |
| 1799 | Cronfa Bensiwn Clwyd | 4,881.43 | Didyniadau pensiwn a chyllido'r diffyg – mis Chwefror 2024 |
| 1800 | Staff Cyngor Tref y Rhyl | 8,301.46 | Cyflog net – mis Mawrth 2024 |
| 1539 | Tesco | 3.00 | Yswiriant ffôn symudol GN |
| 1539 | Tesco | 12.99 | Ffioedd ffôn symudol GN |
| 1659 | Cyngor ar Bopeth | 2,000.00 | Swyddog Effeithlonrwydd Ynni – taliad 4 o 4 |
| | **Cyfanswm y taliadau** | **£19,752.04** | |

| Categori | Disgrifiad | Swm |
|---|---|---|
| HSBC | Llog ar y cyfrif Money Maker | 481.32 |
| Santander | Llog ar y cyfrif Hysbysiad 31 diwrnod | 276.89 |
| HSBC | Llog ar y cyfrif Adneuo 7 diwrnod | 21.48 |
| HSBC | Llog ar y cyfrif Adneuo 7 diwrnod | 21.49 |
| HSBC | Llog ar y cyfrif Adneuo 7 diwrnod | 21.49 |
| HSBC | Llog ar y cyfrif Adneuo 7 diwrnod | 21.49 |
| Amrywiol | Noson Cwis Elusennol y Maer (tocynnau/cyfraniadau/raffl) | 830.00 |
| | **Cyfanswm yr incwm** | **£1,674.16** |

***PENDERFYNWYD*** *derbyn a chymeradwyo'r adroddiad.*

## 145. AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR CYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2017, ac yn unol â rheoliadau ariannol mabwysiedig y Cyngor, cyfeiriodd y Cadeirydd at Atodlen B a gyflwynwyd gan y Clerc (rhestr o daliadau nad ydynt yn daliadau rheolaidd i'w rhyddhau yn ystod y mis nesaf) (a ddosbarthwyd gyda'r agenda).

| Taleb rhif: | Cyflenwr | Manylion y cyflenwad | Swm £ |
|---|---|---|---|
| 1809 | Cymdeithas | Cinio i ddau gynrychiolydd yn | 46.00 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Cynghorau Tref Gogledd a Chanolbarth Cymru | dilyn y cyfarfod ar 19 Ebrill 2024 | |
| 1810 | Delwedd Ltd | Enw parth | 24.47 |
| 1811 | Sandra Williams | Gwasanaeth cyfieithu | 195.88 |
| 1812 | Clwb Rygbi'r Rhyl | Arlwyo i noson Cwis Elusennol y Maer | 441.00 |
| 1813 | Cyngor Tref yr Wyddgrug | Dau docyn i ddigwyddiad elusennol ar 27 Ebrill 2024 | 30.00 |
| | **Cyfanswm Atodlen B** | | **£737.35** |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r atodlen a thalu'r taliadau wedi'u llofnodi gan ddau gynghorydd.*

**146. ADRODDIAD PERFFORMIAD BUDDSODDIADAU 2023/2024**

Cyfeiriodd Clerc y Dref at yr adroddiad ar y cyd ganddo a'r Swyddog Cyllid (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) ar y gweithgarwch buddsoddi a pherfformiad y buddsoddiadau yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, wnaeth roi elw o £7,987.53.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad, gyda diolch i' Swyddog Cyllid.*

**147. EITEM GAN AELOD: CYLLID FFYNIANT BRO**

Gofynnodd y Cynghorydd Mrs J. Butterfield YH MBE am gefnogaeth yr aelodau i'r Cyngor Tref brynu trawsgrifiad llawn cynhadledd yn cael ei chynnal ynghylch Cyllid Ffyniant Bro gan Fforwm Polisi Cymdeithasol San Steffan ddydd Mercher, 15 Mai 2024 (a ddosbarthwyd gyda'r agenda).

Cost y ddogfen fyddai £95.00 ynghyd â Threth ar Werth.

Teimlai'r aelodau y byddai'n fwy buddiol i gynrychiolydd fod yn bresennol yn y gynhadledd ar-lein ar gost o £260.00 ynghyd â Threth ar Werth (a fyddai'n cynnwys cofnod parhaol o drafodion y gynhadledd), o gofio pwysigrwydd y pwnc i'r Rhyl.

***PENDERFYNWYD*** *y byddai'r Cynghorydd Mrs J. Butterfield YH MBE yn mynd i'r gynhadledd ar-lein ar ran y Cyngor Tref.*

**148. EITEM YCHWANEGOL: CYLLID FFYNIANT BRO**

Cyfeiriodd Clerc y Dref at y neges e-bost a anfonwyd at yr aelodau yn gynharach y diwrnod hwnnw ynghylch penodi Cadeirydd y Bwrdd Cyllid Ffyniant Bro. Y dyddiad cau ar gyfer enwebiadau oedd 25 Ebrill 2024.

Ychwanegodd Clerc y Dref na ddylai enwebiadau gynnwys gwleidyddion ac nad oedd ganddo unrhyw ddarpar enwebiadau.

Cynghorodd y Cynghorydd Mrs J. Butterfield YH MBE, ei bod wedi meddwl yn ofalus am enwebiad addas ac awgrymodd Mr Paul Higginson, gan ofyn i'r aelodau gefnogi hynny.

Cynghorodd Clerc y Dref, petai Mr Higginson yn cael ei enwebu i Gyngor Sir Ddinbych fel enwebiad y Cyngor Tref, y byddai'n un o blith llawer ac mai Cyngor Sir Ddinbych fyddai'n penderfynu.

Ychwanegodd Clerc y Dref y gallai aelodau unigol wneud yr un enwebiad neu enwebiadau eraill, pe dymunent.

***<u>PENDERFYNWYD</u>*** *cefnogi'r enwebiad, gyda dau aelod yn pleidleisio yn erbyn.*

## 149. <u>EITHRIO'R WASG A'R CYHOEDD</u>

***<u>PENDERFYNWYD</u>*** *eithrio'r Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod ystyried yr eitemau busnes a ganlyn yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfafodydd) 1960, ar sail cyfrinachedd.*

## 150. <u>ADRODDIAD Y PWYLLGOR CYNLLUNIO STRATEGOL A GWEITHREDOL</u>

Cyfeiriodd y Maer at yr adroddiad cyfrinachol gan y Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) yn gofyn am gadarnhâd i ryddhau taliadau o'r Gyllideb Gwasanaethau a Gomisiynwyd i'r isod:

Siop Cyngor ar Fudd-daliadau – ar gyfer swydd y Swyddog Apeliadau - £14,560
Cyngor ar Bopeth (CAB) – ar gyfer y swydd Swyddog Tlodi Tanwydd - £8,000 (wedi'i gyllido'n gyfatebol gan CAB)
Homestart Cymru – ar gyfer y Cynllun Blynyddoedd Cynnar - £2,000

***<u>PENDERFYNWYD</u>*** *cymeradwyo'r taliadau a Chlerc y Dref i ryddhau datgniad i'r wasg yn amlinellu'r budd aruthrol i drigolion y Rhyl oherwydd cyfraniadau cymharol fach y Cyngor Tref i'r tri sefydliad uchod.*

## 151. <u>EITEM YCHWANEGOL ER GWYBODAETH: 'ADNEWYDDU – MENTER CLIRIO, CADW AC ADEILADU GORLLEWIN Y RHYL</u>

Cynghorodd Clerc y Dref fod Mrs Helen Vaughan-Evans o Gyngor Sir Ddinbych wedi cysylltu ag ef i'w hysbysu am y fenter uchod i'w lansio'n feddal ddydd Llun, 22 Ebrill 2024.

Gofynnodd Mrs Vaughan-Evans a fyddai cynrychiolwyr o Heddlu Gogledd Cymru yn medru dod i gyfarfod y Cyngor Tref i siarad am y fenter gyda'r aelodau. Fodd bynnag, roedd Clerc y Dref wedi gorfod hysbysu Mrs Vaughan-Evans mai'r cyfle cynharaf fyddai cyfarfod y Cyngor ym mis Mehefin, ymhell ar ôl i'r fenter ddechrau.

Roedd Mrs Vaughan-Evans wedi ychwanegu y bwriadwyd gwneud cyflwyniad i gyfarfod nesaf Grŵp Cyfeirio Lleol y Rhyl ar 25 Ebrill 2024.

Felly roedd Clerc y Dref wedi awgrymu, gan y gallai holl aelodau'r Cyngor Tref fynd i gyfarfodydd y Grŵp Cyfeirio, y dylid rhannu gwybodaeth am y fenter gyda nhw bryd hynny.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn y wybodaeth.*

**152. DIWEDD Y CYFARFOD**

Gan nad oedd rhagor o eitemau busnes, cyhoeddodd y Maer ddiwedd y cyfarfod.

Maer: ……..…………………..

Dyddiad: …..……………………..